Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Hysbysiad Prosesu Teg —
Menter Genedlaethol Dyblygu Cofrestriad 2009/10

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r GIG ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinydda. Wrth wneud hynny, gall rannu gwybodaeth a roddir iddo gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus. Mae cydweddu data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifladurol un corff yn erbyn cofnodion cyfrifladurol eraill gan yr un corff neu gyrff eraill i weld sut y maent yn cydweddu. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cyrchu gwybodaeth bersonol. Mae'r math hwn o gydweddu data cyfrifladurol yn helpu canfod trafodion neu ddata a allai ddynodi anghysondeb ac felly fanteisio o ymchwiliad bellach. Gallai unrhyw anghysondebau a ganfyddir drwy'r ymchwiliad fod o ganlyniad i dwyll, camgymeriad neu eglurhad arall.

Ar hyn o bryd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol) yn nodi ei bod yn ofynnol i ni gymryd rhan mewn ymarfer cydweddu data er mwyn helpu canfod dyblygu cofrestriadau cleiflon o fewn Meddygfeydd Meddygon Teulu. Mae'r defnydd o'r data gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei gynnal gydag awdurdod statudol dan Ran 3 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol felly ddyletswydd statudol i ddarparu'r data perthnasol dan baragraff 17 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw'n ofynnol cael caniatâd unigolion cysylltiedig dan Ddeddf Gwarchod Data 1998.

Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio gyda'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff i sicrhau mai dim ond y nifer lleiaf bosibl o wybodaeth bersonol fydd yn cael ei rannu ar gyfer yr archwiliad hwn. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol mewn fformat a amgryptiwyd a'i chadw'n ddiogel cyn cael ei gwaredu'n gyfrinachol ar ddiwedd yr archwiliad. Cynhelir yr ymarfer yn unol â Chod Ymarfer Cydweddu Data'r Archwilydd Cyffredinol a ellir ei weld ar y we yn: www.wao.gov.uk/whatwedo/2052.asp

Pe hoffech wybod mwy am rymoedd cyfreithiol yr Archwilydd Cyffredinol a pham ei fod yn cydweddu gwybodaeth benodol, ewch i: www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/principal_statutory_authorities_for_the_work_of_the_auditor_general_eng.pdf.